Cam 1 Reportio ar gyfer Proses Dangosyddion Perfformiad Cymru

Gorffennaf 2010

Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service
www.mawwfire.gov.uk

Crynodeb o'r Cyd-asesiad Risg

Roedd y Cyd-asesiad Risg blynyddol a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys y negeseuon allweddol canlynol;

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud cynnydd o ran lleihau'r lefelau risg weithredol a adnabuwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid ac mae'n gweithio i wella ymateb gweithredol y Gwasanaeth ymhellach;

Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran lleihau lefel y risg a adnabuwyd yn y Cyd-asesiad Risg diwethaf;

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn wynebu risgiau pellach o ran pwysau ariannol, cyflawni safonau'r gwasanaeth, gwella caffaeliad, newid hinsawdd, gwydnwch a'r system ar ddyletswydd yn ôl galw.

Ein cyflawniadau hyd yn hyn

Rydym wedi cyflawni llawer iawn ym mhob rhan o'n gwaith, ac mae hyn wedi ein galluogi i chwarae ein rhan wrth wneud ein cymunedau'n fwy diogel a chynaliadwy. Rydym wedi gweithio am sawl blwyddyn ar weithgareddau a chynlluniau i wneud cartrefi a safleoedd busnes yn fwy diogel, i leihau llosgi bwriadol ac i wella ein trefniadau ymateb i argyfyngau. Rydym yn gweithio'n helaeth gyda phlant a phobl ifanc, er mwyn eu haddysgu am ddiogelwch ar y ffordd a diogelwch rhag tân ac i ddylanwadu ar eu hymddygiad.

Rydym yn rheoli risg o fewn ein sefydliad, i sicrhau y medrwn ddarparu ein gwasanaethau ym mhob amgylchiad. Mae gweithgareddau partneriaeth gyda gwasanaethau ac asiantaethau eraill yn helpu i wella ein cydnerthedd a'n cynaladwyedd. Mae ein cynllunio i leihau risg yn dwyn i ystyriaeth amcanion ar gyfer gwella ehangach ein partneriaid, ac mae hyn yn ein galluogi i weithio gyda'n gilydd i gyflawni gwelliannau ar y cyd.

Ased pwysicaf y Gwasanaeth hwn yw ei bobl. Rydym wedi buddsoddi yn ein gweithwyr fel eu bod nhw, yn ogystal â bod wedi eu hyfforddi a bod ganddynt gymwysterau proffesiynol, yn cael eu haddysgu i adlewyrchu gwerthoedd y sefydliad, gyda golwg ar degwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym yn dwyn i ystyriaeth gyngor ar arfer gorau a rheoliadau, er mwyn gwneud defnydd effeithlon o'n hadnoddau. Mae ceisio cyllid ac enillion effeithlonrwydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth gwerth am arian, trwy weithio gyda phartneriaid a chymunedau ble y medrwn.

Caiff ein strategaethau cynllunio eu datblygu i adlewyrchu ymagwedd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac maent yn cysylltu ein hamcanion ar gyfer gwella gyda'r buddion yr ydym yn dymuno eu gweld o fewn ein cymunedau.

Mae ein cynllun strategol pum mlynedd wedi traethu ein gweledigaeth, a bob blwyddyn bydd ein Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft yn ymgynghori ynghylch cynigion penodol ar feysydd allweddol o waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol, er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon. Helpodd eich ymatebion i'r ymgynghoriad llynedd i siapio'r hyn yr ydym ni'n ei wneud yn 2010-2011, a dyma adroddiad ar ein cynnydd hyd yn hyn.

1 - Gwella'r ffordd yr ydym yn cyrraedd aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd aelodau'r gymdeithas sydd fwyaf agored i niwed, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i rannu gwybodaeth a chanfod y bobl sydd fwyaf mewn perygl. Rydym yn rhoi hyfforddiant sy'n berthnasol i dân i'n partneriaid, i gynyddu eu gallu i roi gwybodaeth am ddiogelwch i aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

Yn dilyn ymgynghoriad llynedd, rydym yn:-

- Cryfhau ein cysylltiadau gyda chyrff sy'n bartneriaid, i wella'r ffordd yr ydym yn cyrraedd pobl sy'n agored i niwed.
- Gwella ein dealltwriaeth o rai grwpiau sy'n agored i niwed, megis yr henoed, i'n galluogi i ymwneud â nhw'n fwy effeithiol.
- Defnyddio ymchwil academaidd i wella'r modd yr ydym yn canfod pobl sy'n agored i niwed.

2 - Rhannu ein cyfleusterau gyda'n cymunedau

Rydym ni eisiau i'n hadeiladau i barhau i fod yn adnodd gwerthfawr yn y gymuned, a'u bod yn cael eu defnyddio i hyrwyddo ein gwasanaethau a rhaglenni ymwybyddiaeth o ddiogelwch eraill.

Yn dilyn ymgynghoriad llynedd, rydym yn:-

- Rhannu ein cyfleusterau gyda gwasanaethau megis yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans.
- Gwella trefniadau mynediad, lles a diogelwch mewn gorsafoedd cymunedol sy'n bodoli.
- Gwella ansawdd ein hadeiladau a chynyddu'r nifer o orsafoedd tân sydd â chyfleusterau Cymunedol.
- Hybu defnydd o'n gorsafoedd tân fel canolfan ar gyfer digwyddiadau diogelwch.

3 - Cynnwys ein cymunedau

Rydym ni eisiau sicrhau ein bod yn weithgar wrth greu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bob agwedd o'n gwaith a hyrwyddo diogelwch yn y gymuned. Aethom ati i gryfhau ein cysylltiadau gyda chymunedau, er mwyn cynyddu'r llais sydd gan bobl wrth siapio'r gwasanaethau a ddarparwn.

Mae gweithio gyda'n partneriaid yn yr arena gyhoeddus ehangach wedi ein galluogi i ddatblygu a chyflawni strategaethau cymunedol lleol. Rydym yn gweithio ar y cyd gyda gwasanaethau brys eraill ac yn chwarae rôl mewn Byrddau Gwasanaeth Lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Yn dilyn ymgynghoriad llynedd, rydym yn:-

- Gwella ein cyfleoedd i gynnwys, trwy weithio gyda Strategaethau Cynnwys Dinasyddion a Chymunedau awdurdodau lleol.
- Cynnal Cyfarfodydd Cymunedol ar draws y Gwasanaeth, i hyrwyddo ein hymgynghoriadau ac i roi cyngor ar bob agwedd o'n gwasanaethau.

4 - Gwella Diogelwch ar y Ffordd

Rydym yn cydnabod fod llawer gormod o bobl yn cael eu lladd a'u hanafu ar ffyrdd Canolbarth a Gorllewin Cymru, a bod gennym rôl i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau brys ac asiantaethau diogelwch ar y ffordd eraill, ac ar y cyd rydym wedi paratoi Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru. Mae pob un o'n peiriannau tân wedi cael eu huwchraddio gydag offer achub o'r radd flaenaf, i'n helpu i ymdrin â damweiniau pan eu bod yn digwydd.

Yn dilyn ymgynghoriad llynedd, rydym yn:-

- Datblygu ein huned Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Gludadwy i fynd â gwybodaeth am Ddiogelwch ar y Ffordd at grwpiau sy'n agored i niwed ac anodd eu cyrraedd.
- Cynorthwyo lluoedd yr heddlu lleol gyda mentrau megis Beicio Diogel, y prosiect diogelwch beiciau modur, a passpluscymru i addysgu gyrwyr ifanc.
- Defnyddio Beiciau Tân a brynwyd o'r newydd, i gynnwys beicwyr modur a hyrwyddo diogelwch ar y ffordd.

5 - Cyflawni Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (HFSC)

Rydym wedi bod yn cynnal Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref am nifer o flynyddoedd, gan osod larymau mwg am ddim a rhoi cyngor a chynnyrch i gartrefi ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n rhan hanfodol o'n gwaith, a thrwy'r cynllun hwn rydym wedi gweld y nifer o danau yn y cartref a'r anafiadau sy'n gysylltiedig â thân yn gostwng blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ac rydym yn eu darparu â hyfforddiant sy'n berthnasol i dân, ac mae hyn wedi gwella ein gallu i gyrraedd aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

Yn dilyn ymgynghoriad llynedd, rydym yn:-

- Darparu hyfforddiant ar gyfer partneriaid yn y gymuned, i'w galluogi i gynnal Archwiliadau HFSC.
- Defnyddio ymchwil academaidd i wella'r modd yr ydym yn targedu Archwiliadau HFSC.
- Darparu gwell system i gofnodi a rheoli'r gwasanaeth HFSC.

6 - Lleihau'r nifer o danau glaswelltir bwriadol

Mae llosgi bwriadol yn gwastraffu ein hadnoddau ac mae'n peryglu ein cymunedau. Mae ein Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn gweithio gydag ysgolion, cymunedau busnes ac awdurdodau lleol, ac mae'n targedu'r ardaloedd a effeithir fwyaf gan gynnau tanau'n fwriadol. Yn ogystal mae rhaglenni addysg i ysgolion a phobl ifanc yn canolbwyntio ar beryglon tân. Rydym yn gweithio gyda chymunedau ac asiantaethau eraill, i atal tanau glaswellt bwriadol ac i leihau'r effaith ar yr amgylchedd a achosir gan lygredd aer a dwr.

Yn dilyn ymgynghoriad llynedd, rydym yn:-

- Datblygu gwaith partneriaeth ein Tîm Cefn Gwlad a Choedwigaeth (RAFT).
- Parhau i weithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid i weithredu'r Côd Llosgi Glaswellt a Grug, a chymell pobl i fod yn gyfrifol wrth losgi, dan reolaeth, tir amaeth a thir comin.
- Cefnogi erlyniad diwahaniaeth cynnwyr tanau trwy gyfrwng cynllun Taclo'r Taclau.
- Datblygu deunydd hyrwyddol ac addysgol, i bwysleisio peryglon tanau glaswellt.

Gwella'r Gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth wedi gosod cynllun pum mlynedd i ostwng y nifer o ddigwyddiadau, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac anghenion lleol. Gosodwyd targedau eto eleni, yn unol â'r cynllun hwn ac mae manylion pellach ar gael ar gais.

I gael gwybod mwy am unrhyw wybodaeth sy'n gynwysedig yn y ddogfen hon, cysylltwch â'r Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad, os gwelwch yn dda

- e-mail rrp@mawwfire.gov.uk
- Ffoniwch 0370 6060699 a gofynnwch am yr Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad.
- Ysgrifennwch at y Prif Swyddog Tân, Pencadlys Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP

Pencadlys Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP

Ffon: 0370 60 60 699
Ffacs: 01267 22 05 62
Ebost: mail@mawwfire.gov.uk
Gwefan: www.mawwfire.gov.uk

Mid and West Wales Fire and Rescue Service Headquarters
Lime Grove Avenue
Carmarthen
SA31 1SP

Tel: 0370 60 60 699
Fax: 01267 22 05 62
Email: mail@mawwfire.gov.uk
Website: www.mawwfire.gov.uk